**Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru**

**Cyfarfod Skype**

**11:30-13:00 ar 29 Ebrill 2020**

## Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Aled Edwards | Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Gethin Rhys | Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Rheinallt Thomas | Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru |
| Christine Abbas | Ffydd Baha'i |
| Vivian Bartlett | Fydd Baha'i Faith |
| Naran Patel | Cyngor Hindŵaidd Cymru |
| Radhika Kadaba | Cyngor Hindŵaidd Cymru |
| Angela Keller | Yr Eglwys Gatholig Rufeinig (yn cynrychioli Archesgob Caerdydd) |
| Sian Rees | Y Gynghrair Efengylaidd |
| Abdul-Azim Ahmed | Cyngor Mwslimaidd Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimaidd Cymru |
| Kate McColgan | Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| John Davies | Archesgob Cymru |
| Nor'dzin Pamo | Cynrychiolydd Bwdhaidd |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Gurmit Singh Randhawa | Cyngor Sikhaidd Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimaidd Cymru |
| Laurence Kahn | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Melody Odey | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Meraj Hussein | Cyngor Mwslimaidd Cymru |
| Joga Singh | Cyngor Sikhaidd Cymru |

## Cofnodion

**1** **Croeso**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (DWPCh). Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cyfathrebu er gwaetha'r heriau y mae pawb yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Diolchodd y DWPCh i aelodau'r Fforwm am weithredu mewn ffordd gref a rhyng-ffydd wrth ymateb i'r pandemig Covid 19.

**2** **Eitem 1 - Covid 19 a'r effaith ar ffydd**

Gwahoddwyd y DWPCh gyfraniadau gan yr aelodau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Caledi a thrallod i gynulleidfaoedd oherwydd colli mannau cymunedol.
- Adnoddau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol:
    - Twf amlwg yn natblygiad a'r defnydd o adnoddau digidol.
        - mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n dda ar gyfer cefnogaeth a gweithredu (banciau bwyd ac ati).

        - llwyddiannus iawn hefyd o ran cyfathrebu yn y Gymraeg gan gynnwys S4C.
    - Mae mwy o addolwyr ar-lein na'r nifer oedd yn mynd i wasanaethau'n corfforol cyn i'r sefyllfa bresennol godi.
    - Mae adnoddau addysgol ac adrodd straeon ar gael gan rai aelodau.

- Ramadan unigryw. Lansiodd Cyngor Mwslimaidd Cymru 'Radio Ramadan Cymru' gan ddefnyddio ffrydio i rannu cynnwys i lenwi bylchau.
    - Mae'r DWPCh wedi ysgrifennu at Imamiaid yng Nghymru ynghylch Ramadan.

- Diolchodd Archesgob Cymru i Lywodraeth Cymru am y ddarpariaeth i ymweld ag eglwysi ar gyfer recordio a ffrydio.

    - Ni fyddai'r Eglwys yng Nghymru yn agor eglwysi ar gyfer angladdau, o ystyried yr heriau a gyflwynir gan y rheoliadau presennol.
    - Nodwyd amrywiol geisiadau am ganu clychau, nawr o gwmpas Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cadw at y canllaw mai clerigwyr yn unig ddylai fynd i eglwysi.

- Mae dilynwyr y ffydd Baha'i yn ceisio cysylltu â phob cymuned, gan rannu cyfarfodydd ymneilltuol gyda phob crefydd.
    - Mae pobl yn rhannu mwy o'u cartref.
    - Anfonwyd pecynnau bwyd i fenywod y ffydd Baha'i sy'n agored i niwed gan fenywod Mwslimaidd yn Abertawe.

- Profedigaeth:
    - Mae angen cymorth tosturiol ar gyfer pobl sy'n wynebu profedigaeth.
    - Mae grwpiau Hindŵaidd wedi bod yn gweini bwyd i'r GIG ac i weithwyr gofal, ac yn gweddïo dros bawb.

Nid yw cysylltiadau rhwng plwyfi Catholig ac ysgolion Catholig yn weithredol bellach oherwydd y coronafirws.

Yn yr Eglwys Efengylaidd, mae pobl yn chwilio am ddiwinyddiaeth o ddioddefaint.
- Mae'r Gynghrair Efengylaidd yn cydweithio â chaplaniaid, ac yn ystyried sut y gallai'r Eglwys wasanaethu ar ôl y cyfnod hwn.
- Yn ogystal â thristwch, llawer o obaith ac ysbryd cymunedol.

Mae Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd, a galwadau i'r henoed.
- Mae Eglwys Iesu Grist a Saint y Dyddiau Diwethaf wedi cydlynu 8000+ o fagiau urddas o amgylch De Cymru.
- Mae 7 cydgysylltydd (sydd wedi'u cymeradwyo'n swyddogol) yn casglu ar y stryd ar gyfer banciau bwyd/hylendid ar gyfer cartrefi gofal.
- Rydym yn ceisio rhoi gwybod i'r cyfryngau am waith Cyngor Rhyngffydd Cymru.

Atgoffwyd y grŵp nad yw llwybr ysbrydol pawb yn cynnwys ffydd yn Nuw ac addoliad.

Ychwanegodd y DWPCh y pwyntiau ychwanegol canlynol at y drafodaeth:
- Cynigiodd drosglwyddo sylwadau am gymorth profedigaeth i gydweithwyr iechyd i'w hystyried yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19.
- Nododd bwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol a chyfle i gynnal rhai o effeithiau cadarnhaol y cyfnod hwn i'r dyfodol.

- Noodd pa mor bwysig ydyw bod cymorth rhyngffydd yn parhau, hefyd gwaith banciau bwyd.

Ar gladdedigaethau:

- Mae achosion o ganslo claddedigaethau wedi achosi trallod.
- Mae gwaith da wedi'i wneud gydag ALlau a chyda LlC, sydd wedi'i gysylltu'n dda.
- Mae gennym syniad o'r hyn sydd ei angen a phwy i gysylltu â nhw.
- Mae darparwyr lleol yn wynebu heriau wrth reoli ymwelwyr.
- Mae gwahaniaethau sylweddol o ran dulliau gweithredu ar draws ardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion:

- Mae'r Gweinidog Addysg wedi gwneud pwyntiau yr wythnos hon a fydd o ddiddordeb.
- Mae arwahanrwydd hefyd yn nodwedd allweddol i bob cymuned ffydd.

Nododd y DWPCh fod Covid 19 yn cael effaith anghymesur ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac y dylem beidio â dwysáu unrhyw anghydraddoldeb yn ystod y pandemig ond lliniaru eu heffeithiau.

3 **Eitem 2 - Covid 19 a'r effaith ar Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)**

Rhoddodd Heather Payne, Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19, drosolwg o waith LlC:

- Mae'r data sy'n dod i'r amlwg yn dangos yr angen i ganolbwyntio ar effaith uchel Covid 19 ar y gymuned BAME.
- Mae Grŵp Cynghori wedi'i sefydlu, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Barnwr Ray Singh, sydd hefyd yn edrych ar asesiadau risg ar gyfer gweithwyr.
- Mae dadansoddiad data ar y gweill i asesu achosion posibl.
- Mae angen persbectif sy'n seiliedig ar ffydd oherwydd bod modd i ethnigrwydd fod yn seiliedig ar ffydd.
- Bydd materion meddygol ac economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried, ac wedyn camau adeiladol.

Nododd Aled Edwards fod systemau ar waith i ffoaduriaid sy'n feddygon weithio yn y GIG.

- Mae swyddogion yn gwirio cydymffurfiaeth â system gymwysterau Lloegr.
- Ceir pryderon ynglŷn â rhoi gweithwyr newydd mewn perygl ar y rheng flaen ond mae trafodaethau'n dangos bod unigolion am benderfynu drostynt eu hunain.
- Os yw sefydliad yn dymuno ariannu sefydliadau i ffoaduriaid, cysylltwch ag Aled am fanylion.
- Ceir pryderon ynghylch y canllawiau ar angladdau - cyfyngiadau ar deuluoedd BAME mwy o faint.

Atebodd y DWPCh:

- Rydym yn cydweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Alban ar faterion BAME
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol hefyd ar y rheng flaen.
- Mae cyfraniad y gweithlu BAME i'r ymateb Covid 19 yn sylweddol.

Tynnodd Naran Patel sylw at y ffaith nad yw sefydliadau Hindŵaidd yn rhan o ymgynghoriad y Deyrnas Unedig i effeithiau Covid 19 ar y gymuned BAME.

| | |
|---|---|
| | Fe wnaeth y DWPCh annog ffocws penodol ar y sefyllfa yng Nghymru:<br>- Ceir Grŵp Cynghori i Gymru, yn ogystal ag ymchwiliad y Deyrnas Unedig.<br>- Mae Doreen Lawrence yn arwain ar ran y Blaid Lafur yn y Deyrnas Unedig, a bydd y DWPCh yn mynegi pryderon ar ran y gymuned Hindŵaidd.<br>- Bydd agweddau ffydd yn allweddol i waith y grŵp cynghori.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Aelodau'r fforwm i anfon unrhyw adborth pellach at y Tîm Cydraddoldeb, i'w drosglwyddo i'r grŵp cynghori.** |
| **4** | **Eitem 3 – Arwain Cymru allan o'r pandemig: y posibilrwydd o ail agor addoldai ar gyfer gweddïo'n breifat.**<br><br>Soniodd y DWPCh am fframwaith/7 cwestiwn Prif Weinidog Cymru i arwain Cymru allan o'r sefyllfa bresennol, gan amlinellu'r cyfle i ystyried a ddylid codi'r cyfyngiadau ar addoldai.<br><br>Roedd cytundeb cyffredinol ar draws y grŵp na fyddai agor addoldai at ddefnydd cyfyngedig yn ymarferol, oherwydd materion yn ymwneud â lleoliadau sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol, staff gwirfoddol, anhawster o ran cyfyngu mynediad i unigolion, glanhau ac ati.<br><br>Rhoddodd y DWPCh wybod i'r grŵp am y canlynol:<br>- Bydd swyddogion yn bwydo'r safbwyntiau i'r gwaith o lunio fframwaith y Prif Weinidog. Mae pwysau i ddilyn Lloegr ond rhaid i ni wneud yr hyn sy'n gweithio i Gymru.<br>- Mae iechyd y cyhoedd yn flaenllaw yn y gwaith hwn.<br><br>Dywedodd Archesgob Cymru fod arweinwyr ffydd wedi cael eu beirniadu am ddilyn canllawiau swyddogol.<br>- Cadarnhaodd y DWPCh fod y canllawiau iechyd cyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth a phenderfyniadau gan Weinidogion ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol. |
| **5** | **Eitem 4 – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**<br><br>Dywedodd y DWPCh:<br>- Mae'r cyfnod hwn wedi gweld cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig, sy'n effeithio ar rai plant.<br>- Er gwaethaf hyn, mae llai o atgyfeiriadau a galwadau i llinell gymorth Byw Heb Ofn.<br>- Mae darparwyr llochesi a gweithwyr ym maes cam-drin domestig yn cael eu cyfrif yn weithwyr allweddol.<br>- Mae galwadau i 999 ac yna 55 yn dangos i'r heddlu bod rhywun mewn perygl.<br>- Menywod yw'r prif ddioddefwyr ond mae pwysau enfawr mewn teuluoedd:<br>  o ffactorau economaidd-gymdeithasol, materion yn ymwneud â'r cenedlaethau, allgáu digidol, mynediad i erddi, i gyd yn cyfrannu at hyn.<br>- Mae arweinwyr ffydd yn ymwybodol o'ch cymunedau a'ch cymdogaethau a gallant helpu teuluoedd mewn angen.<br>- Mae'r ymgyrch Paid Cadw'n Dawel yn ymwneud â chefnogaeth yn y gymuned ac mae'r sefyllfa sydd ohoni wedi dod â rhai cymunedau at ei gilydd.<br><br>Gofynnodd swyddogion i arweinwyr ffydd ystyried trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod a chodi'r materion hyn fel troseddau gyda'u cynulleidfaoedd. |

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU: Swyddogion i rannu gwybodaeth am yr ymgyrch Paid Cadw’n Dawel.** |
| 6 | **Eitem 5 – Ymgynghoriad ym maes addysg: Cwricwlwm i Gymru: Crefydd, gwerthoedd a moeseg (Pete Kennedy)**<br><br>Estynnodd y DWPCh wahoddiad i Peter Ray Kennedy gyflwyno'r eitem hon ar y diweddaraf mewn cyfres o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r cwricwlwm.<br><br>- Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau mewn deddfwriaeth addysg i grefydd, gwerthoedd a moeseg i gyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru a'r gofyniad am luosrywiaeth.<br>- Mae addysg grefyddol yn orfodol i bob disgybl cofrestredig, a bydd yn parhau i fod yn rhan o'r dyniaethau, gyda’r enw yn newid i Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br>- Mae gan ysgolion o natur grefyddol reolau gwahanol.<br>- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaethau bod yn rhaid i unrhyw faes llafur adlewyrchu'r ystod eang o safbwyntiau yng Nghymru yn ogystal â safbwyntiau nad ydynt yn rhai crefyddol fel Dyneiddiaeth ac Anffyddwyr. Mae hyn yn adlewyrchu’r gyfraith achosion.<br>- Bydd Cynadleddau Maes Llafur Cytûn yn penderfynu ar feysydd llafur ond rhaid iddynt ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru.<br>- Bydd statws ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn glir ar wyneb y Bil.<br>- Rhannwyd manylion cyswllt swyddogion ag aelodau’r Fforwm er mwyn cael mewnbwn pellach.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar y diffiniad drafft o "grefydd" i’r perwyl hwn<br>  - Mae diffiniadau cynharach nad ydynt yn cyfeirio at dduwioldeb yn peri pryder i’r Gynghrair Efengylaidd. Fodd bynnag, mae diffiniad o grefydd sy'n cyfeirio at Dduw yn eithrio Bwdhaeth.<br>  - Datblygwyd y diffiniad gyda rhanddeiliaid ond ni chaiff ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth, dim ond yn y fframwaith yr ymgynghorir arno yn ddiweddarach yn y flwyddyn<br><br>**CAM GWEITHREDU: Mae Swyddogion Addysg wedi cytuno i roi adborth ar y diweddaraf ynghylch y diffiniad o grefydd.**<br><br>Awgrymodd y DWPCh y dylid cynnal cyfarfod penodol ar yr ymgynghoriad dros y deuddeg wythnos nesaf.<br><br>**CAM GWEITHREDU: Swyddogion i gynllunio cyfarfod i drafod yr ymgynghoriad diweddaraf ar addysg grefyddol yn ystod y 12 wythnos nesaf.** |
| 7 | Unrhyw Fater Arall<br><br>Crëwyd y Fforwm yn ystod cyfnod o argyfwng. Pwysleisiodd y DWPCh pa mor bwysig yw’r Fforwm ar hyn o bryd.<br>- Dylai'r Fforwm gyfarfod eto o fewn y cyfnod ymgynghori hwn o 12 wythnos ar Addysg Grefyddol.<br>- Diolchodd y DWPCh i'r holl Aelodau a'u cymunedau am eu gwaith a'u heffaith ar fywydau pobl. |

**ACTIONS:**

1. **Aelodau'r fforwm i anfon unrhyw adborth pellach at y tîm cydraddoldeb, i'w drosglwyddo i'r grŵp cynghori.**
2. **Swyddogion i rannu gwybodaeth am yr ymgyrch Paid Cadw'n Dawel.**
3. **Swyddogion i gynllunio cyfarfod i drafod yr ymgynghoriad diweddaraf ar addysg grefyddol yn ystod y 12 wythnos nesaf.**